

Dyddiad cyhoeddi: 12 Tachwedd 2020

Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch Cais Rhyddid Gwybodaeth. Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

Gofynnwch am y wybodaeth ganlynol:

"Yn ddiweddar, rwyf wedi sylwi ar ostyngiad sylweddol yn y gwasanaethau sy'n stopio hwyr y nos o Crewe i Whitchurch. Dywedwyd wrthyf yn sgil COVID bod amserlen dydd Sul yn cael ei gweithredu ledled y rhwydwaith ond sylwaf fod y gwasanaeth i Whitchurch ar ddydd Sul yn well na'r gwasanaeth canol wythnos. Mae'r trê'n olaf o Crewe i Whitchurch ganol wythnos bellach am 21:18, sy'n gostwng yr amser teithio yn sylweddol o Fanceinion a Llundain.

Felly, fy nghwestiwn cyntaf yw a yw'r newidiadau diweddar i'r amserlen yn deillio o COVID ac os felly, pa gynlluniau sydd ar y gweill i ddadwneud y newidiadau hyn ar ôl i'r argyfwng presennol ddod i ben **(1)**.

Hefyd, hoffwn ofyn am restr i'r gwasanaethau a arhosodd yn Whitchurch, Swydd Amwythig cyn mis Mawrth 2020 nad ydynt ym mis Hydref 2020 (oni bai eu bod wedi'u disodli gyda gwasanaeth tebyg o fewn 30 munud i'r gwasanaeth cyn mis Mawrth 2020). A fydech cystal â nodi'r diwrnod a phen y daith **(2)**.

Hefyd, hoffwn ddeall pa ymgynghoriad â phreswylwyr a gynhaliwyd ar y newidiadau hyn ac a oedd asesiad mewnol o effaith y canslo ar alluoedd teithwyr i gysylltu o wasanaethau cysylltiedig **(3)**.

Hefyd, hoffwn gael gwybod pryd fydd yr amserlen, sy'n effeithio ar Whitchurch, Swydd Amwythig yn cael ei hadolygu a gyda phwy fyddai orau i mi gysylltu ynghylch fy mhryderon **(4)**.

Ar ôl adolygu'ch cwestiynau, gallwn ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

Mewn ymateb i gwestiwn (1):

Law yn llaw â chwmnïau gweithredu trenau eraill, roedd yn rhaid i Trafnidiaeth Cymru weithredu amserlen gyfyngedig mewn ymateb i'r pandemig Coronafeirws yng ngwanwyn 2020, pan mai dim ond teithiau hanfodol a oedd yn cael eu caniatáu ar drafnidiaeth gyhoeddus. Roedd yr amserlen gyfyngedig yn cael ei hadolygu'n barhaus ac roedd llawer o gynnydd mewn gwasanaethau ers ei rhoi ar waith. Ar y cyfan, mae'r amserlen bellach wedi cynyddu o lefel gwasanaeth 65% ar anterth y cyfyngiadau symud yn ôl i fyny i 90%, a dyna lle rydyn ni arni ar hyn o bryd, yn unol â gweddill rhwydwaith rheilffyrdd y DU.

Yn ystod yr adegau digynsail hyn, rydym wedi monitro'n ofalus unrhyw newidiadau gwasanaeth a allai effeithio ar deithwyr, yn enwedig gweithwyr allweddol a myfyrwyr sy'n dibynnu ar y gwasanaethau hynny. Rydym yn gwerthfawrogi'r holl adborth rydym yn ei dderbyn ac yn bwydo hwn yn ôl i gyfarfodydd wythnosol gyda chydweithwyr sy'n cynllunio amserlenni gyda golwg ar fynd i'r afael â materion yn y tymor byr a'r tymor hirach.

Er ein bod yn cynnal llai o wasanaethau trê'n ar hyn o bryd, mae'n bwysig pwysleisio bod ein holl drenau yn cael eu defnyddio. Mae'r rheswm am y gostyngiad mewn gwasanaethau ar hyn o bryd o gymharu â chyn y cyfyngiadau clo fel a ganlyn:

- Mae angen i lawer o'n gwasanaethau trenau redeg gyda mwy o gerbydau na'r arfer er mwyn sicrhau y gellir cadw pellter cymdeithasol
- Mae'n cymryd mwy o amser bellach i gynnal ein gweithdrefnau glanhau mwy trylwyr
- Mae niferoedd staff yn parhau yn is na'r arfer yn sgil absenoldebau sy'n gysylltiedig â'r Coronafeirws, sy'n golygu bod llai o'n pobl ar gael i gynnal ein gwasanaethau.

Mewn ymateb i gwestiwn (2):

2019	2020
05:09 Crewe	04:31 Crewe
06:19 Manc Picc.	06:17 Crewe
06:59 Manc Picc.	07:00 Crewe
07:57 Manc Picc.	07:56 Crewe
09:37 Manc Picc.	09:37 Manc Picc.
11:43 Caergybi	11:43 Crewe
13:43 Crewe	13:43 Crewe
14:28 Manc Picc.	14:28 Manc Picc.
15:45 Crewe	15:45 Crewe
16:28 Manc Picc.	16:27 Manc Picc.
17:43 Crewe	17:42 Crewe
18:29 Manc Picc.	18:29 Manc Picc.
19:29 Manc Picc.	19:30 Manc Picc.
20:29 Manc Picc.	20:29 Manc Picc.
21:41 Manc Picc.	21:41 Manc Picc.
22:34 Manc Picc.	22:34 Manc Picc.
23:35 Manc Picc.	23:35 Manc Picc.

Mewn ymateb i gwestiwn (3):

Rhodddwyd yr amserlen gyfyngedig ar waith yn gyflym yng Ngwanwyn 2020 fel rhan o'r ymateb brys i'r pandemig Coronafeirws, ac roedd yr angen i ymateb ar unwaith yn golygu nad oedd digon o amser i ymgynghori â'r cyhoedd. Nid oes bwriad cynnal ymgynghoriad cyhoeddus gan fod unrhyw gynnydd mewn gwasanaeth yn seiliedig ar ganllawiau a ddarperir gan bartneriaid fel Llywodraeth Cymru, Network Rail a'r Adran Drafnidiaeth. Fodd bynnag, ers rhoi'r amserlen gyfyngedig ar waith,

rydym wedi monitro adborth cwsmeriaid yn drylwyr drwy ein holl sianeli cyfathrebu, gan roi diwygiadau ar waith mewn ymateb lle'n bosibl.

Mewn ymateb i gwestiwn (4):

Rydym yn adolygu'r amserlen yn barhaus ac yn disgwyl mynd i'r ateb â'r bwloch presennol yn amserlen y bore yn Whitchurch drwy adfer gwasanaeth yn ystod newidiadau amserlen Rhagfyr. Rydym wastad yn croesawu adborth a gellir codi unrhyw ymholiadau neu bryderon drwy nifer o sianeli cyfathrebu fel y manylir yma: <https://trc.cymru/cymorth-a-chysylltu/rheilffordd/cysylltu-a-ni>

Yn ogystal â'ch cwestiynau, credwn y bydd y wybodaeth ganlynol o fudd i chi hefyd:

Ydych chi'n gwybod pryd y bydd gwasanaethau yn dychwelyd i 100%?

Ddim ar hyn o bryd. Diogelwch ein cwsmeriaid a'n staff yw ein prif flaenoriaeth o hyd, ac rydym yn parhau i adolygu ein hamserlen ar sail data teithwyr, canllawiau gan Lywodraeth Cymru a newidiadau i'r amserlen reilffyrdd DU ehangach.

Ein cyngor o hyd yw y dylai cwsmeriaid gynllunio'n ofalus ac osgoi teithio ar adegau prysurach lle'n bosibl. Am ragor o wybodaeth, ewch i'n gwefan yn: <https://tfw.gov.wales/travel-safer>.

Yn gywir,

Trafnidiaeth Cymru